**Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol – Ymgynghoriadau Cyhoeddus Awdurdodau Lleol Hydref 2021 – *Cerdded a beicio yn .... dweud eich dweud***

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru wedi cyhoeddi dogfennau ymgynghori cyhoeddus ac adnoddau ar-lein i'r cyhoedd ymgysylltu â chynigion ar gyfer gwneud gwelliannau mewn pentrefi, trefi a dinasoedd i hybu cerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys cyhoeddi Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol arfaethedig.

Mae Comisiwn Dylunio Cymru yn annog pob awdurdod lleol, Trafnidiaeth Cymru a Sustrans Cymru i ystyried eu hagwedd at deithio llesol a'r ymateb i'r ymgynghoriadau. Mae'r Comisiwn hefyd yn nodi nifer o nodweddion sy'n gyffredin i'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol presennol wrth iddynt gael eu cyflwyno i'r cyhoedd drwy ddefnyddio Commonplace.

**Y Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol**

Mae nifer o Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol wedi cael eu datblygu a bwriedir iddynt ystyried y canlynol:

- Cynigion i wella llwybrau cerdded a beicio, gan gynnwys mewn rhai achosion rhwydweithiau o lwybrau beicio ar wahân
- Y llwybrau sydd eu hangen i gysylltu safleoedd datblygu strategol â chymunedau presennol a chyrchfannau allweddol.
- Y llwybrau sydd eu hangen i gyrraedd cyrchfannau lleol pwysig, gan gynnwys ysgolion a siopau lleol
- Dadansoddiad o'r adborth i ymarferion ymgysylltu blaenorol Commonplace, a oedd mewn rhai achosion, yn nodi lleoliadau ychwanegol lle mae angen a/neu lle dymunir gwelliannau ar gyfer cerdded a/neu feicio.

**Mae cwestiynau'r ymgynghoriad yn debyg ac yn cynnwys:**

- Ydyn ni wedi nodi'r llwybrau cywir i'w gwella (llwybrau arfaethedig)?
- Ydyn ni'n gywir yn ein hasesiad o'r llwybrau sydd eisoes yn cyrraedd y safonau y cytunwyd arnynt (llwybrau sy'n bodoli eisoes)?
- Ydyn ni wedi nodi'r holl lwybrau newydd priodol?

- Ydy'r cynigion yn yr atodlen o gynlluniau yn briodol i ddatblygu'r llwybrau arfaethedig?

Yn aml mae'r cynlluniau'n rhannu ardaloedd yn lleoliadau a/neu yn rhanbarthau blaenoriaeth penodol gyda Map Rhwydwaith Teithio Llesol manwl ar gyfer pob ardal. Mae pob cynllun yn cynnwys map o'r ardal gydag allwedd yn nodi:

- Llwybrau cerdded presennol
- Llwybrau cerdded arfaethedig
- Llwybrau cerdded a beicio presennol
- Llwybrau cerdded a beicio arfaethedig

Mae'r ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys amserlenni sy'n nodi'r gwelliannau arfaethedig i'r seilwaith/llwybrau cerdded a beicio ym mhob ardal/rhanbarth cynllun.

Mae'r ymarfer ymgynghori yn cyflawni'r gofyniad o dan y Ddeddf Teithio Llesol i awdurdodau lleol gynnal ymgynghoriad statudol 12 wythnos o hyd ar y Map Rhwydwaith Teithio Llesol.

**Ein safbwynt ar yr ymgynghoriadau cyhoeddus**

Rydyn ni o'r farn bod cyfleoedd teithio llesol yn bwysig iawn oherwydd eu bod yn:

- cynyddu llwybrau llesol cyfleus
- darparu mwy o ddewisiadau deniadol o ran cerdded, beicio neu drafnidiaeth gyhoeddus yn hytrach na defnyddio cerbydau preifat
- gallu cyfrannu at leihau allyriadau a gwella ansawdd aer
- cynnig manteision iechyd corfforol a meddyliol
- darparu mwy o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol

Rydyn ni'n cynnwys cerdded, beicio, sgwtio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn ein diffiniad o deithio llesol, yn ogystal ag ystyried dewisiadau ac anghenion pobl anabl, grwpiau teulu a phlant.

Rydyn ni'n pwysleisio bod angen i deithio llesol fod y ffordd dderbyniol, normal ac arferol o symud o gwmpas. Mae angen newid cyfleusterau, seilwaith ac ymddygiad er mwyn i hyn ddigwydd. Rydyn ni felly'n disgwyl i gynlluniau teithio llesol gael eu hategu gan ymgyrchoedd hyrwyddo cadarnhaol sy'n cyfleu manteision teithio llesol.

Rydyn ni'n croesawu pob cynllun gan awdurdodau lleol ac asiantaethau allweddol yng Nghymru i hyrwyddo cerdded a beicio ym mhob ardal. Croesewir yr ystyriaeth ofalus o'r trefniadau cyfredol fesul ardal, fesul stryd, ynghyd â nodi nifer o addasiadau, bach yn aml, sy'n gallu gwneud byd o wahaniaeth i ba mor ddeniadol yw strydoedd a mannau ar gyfer cerdded a beicio.

Mae gwneud dewisiadau teithio llesol yn haws, yn fwy diogel ac yn fwy deniadol yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i wneud gwelliannau parhaus i leoedd ac i rwydweithiau strydoedd dros gyfnod hir. Mae dull awdurdodau lleol Cymru o ddatblygu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol clir yn fan cychwyn defnyddiol ar gyfer yr ymrwymiad hirdymor angenrheidiol hwn.

Mae adolygu'r mapiau amrywiol yn y dogfennau ymgynghori wedi codi rhai cwestiynau a sylwadau:

- Beth yw'r meini prawf ar gyfer nodi llwybrau fel llwybrau *cerdded presennol*?
  Mae sawl map, er enghraifft, yn awgrymu nad oes un o'r strydoedd mewn rhai ardaloedd yn llwybrau cerdded ar hyn o bryd.
- Beth yw'r meini prawf ar gyfer nodi llwybrau *cerdded arfaethedig*? Mae'n ymddangos mai ychydig o rannau o'r rhwydweithiau presennol sy'n cael eu nodi i'w gwella. Dylid dylunio a rheoli *pob stryd* er mwyn bod yn addas ar gyfer cerdded diogel, dymunol, cyfleus a deniadol.
- Beth yw'r meini prawf ar gyfer nodi llwybrau fel llwybrau *beicio presennol*? Mae sawl map, er enghraifft, yn awgrymu nad oes yr un o'r strydoedd yn yr ardal hon yn llwybrau beicio ar hyn o bryd. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn ddisgrifiad cywir o'r sefyllfa a'r statws ar hyn o bryd.
- Beth yw'r meini prawf ar gyfer nodi llwybrau *beicio arfaethedig*? Mae'n ymddangos mai ychydig o rannau o'r rhwydwaith presennol sy'n cael eu nodi i'w gwella. Dylid dylunio a rheoli *pob stryd* er mwyn bod yn addas ar gyfer beicio diogel, dymunol a chyfleus.

Mae rhywfaint o risg y gall datblygu'r Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol drin cyfleoedd teithio llesol fel rhai 'arbennig' neu ddewisol, sydd ond yn briodol i rai llwybrau a defnyddwyr penodol. Mae hyn yn awgrymu bod dewisiadau teithio llesol yn dal i gael eu hystyried fel eithriadau i oruchafiaeth defnyddio cerbydau preifat ar ffyrdd a llwybrau cyhoeddus. Mae risg na fydd y dull hwn yn mynd i'r afael yn ddigonol ag anghenion pobl, neu grwpiau gan gynnwys teuluoedd, a allai ddefnyddio beiciau 'cargo' neu drelar, neu

eraill sy'n defnyddio olwynion yn annibynnol neu gyda chymorth, fel pobl anabl, aelodau hŷn o'n cymunedau neu blant.

Rydyn ni'n annog pob awdurdod lleol i sicrhau eu bod yn osgoi dull gweithredu detholus a allai roi blaenoriaeth is i ddewisiadau teithio lleol, y tu ôl i ddefnyddio'r car a cherbydau preifat sydd, maes o law, yn cyfrannu at ddulliau hen ffasiwn o ddylunio strydoedd a seilwaith. Pa un a yw hyn yn fwriadol ai peidio, mae'n lleihau dewisiadau teithio llesol fel dulliau diogel, deniadol a chyfleus. Rydyn ni'n annog pob cynllun i ystyried a darparu ar gyfer pob modd yn briodol.

Byddai egluro termau a gwella graffeg y deunyddiau'n helpu gyda'r broses ymgynghori, gan ei gwneud yn haws i aelodau o'r cyhoedd ymgysylltu drwy wneud y deunyddiau'n fwy hygyrch i'r cyhoedd.

Diwedd.